

See discussions, stats, and author profiles for this publication at: <https://www.researchgate.net/publication/332112407>

Uwch Broffiliau Cadw'n Iach yng Nghymru: Pwy sy'n medel beth am iechyd y genedl

Book · March 2019

CITATIONS

0

READS

36

4 authors:



Catherine Sharp

University of Bristol

30 PUBLICATIONS 80 CITATIONS

[SEE PROFILE](#)



Karen Elizabeth Hughes

Public Health Wales

195 PUBLICATIONS 6,050 CITATIONS

[SEE PROFILE](#)



Lisa C. G. Di Lemma

University of Chester

20 PUBLICATIONS 205 CITATIONS

[SEE PROFILE](#)



Mark Bellis

Public Health Wales, Wrexham

447 PUBLICATIONS 11,467 CITATIONS

[SEE PROFILE](#)

Some of the authors of this publication are also working on these related projects:



Alcohol use by nightlife patrons in the UK and Brazil [View project](#)



Framing a public health approach to gambling harms in Wales: Challenges and opportunities [View project](#)



Uwch Broffiliau Cadw'n Iach yng Nghymru:

Pwy sy'n meddwl beth
am iechyd y genedl





Uwch Broffiliau Cadw'n Iach yng Nghymru:

Pwy sy'n meddwl beth
am iechyd y genedl



Catherine A. Sharp¹, Karen Hughes^{1,2}, Lisa C.G. Di Lemma² a Mark A. Bellis^{1,2}



¹Uned Gydweithredu Iechyd Cyhoeddus
Ysgol Gwyddorau Iechyd
Prifysgol Bangor
Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam LL13 7YP
Tel: +44(0)1248 383519



²Cyfarwyddiaeth Polisi a Datblygiad Rhyngwladol,
Canolfan Cydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar
Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant,
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Clwydian House, Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam LL13 7YP
Tel: +44(0)1978 318413

Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl ymatebwyr a oedd yn ddigon caredig i lenwi'r holiadur. Hoffem ddiolch i BMG Research am y gwaith o gasglu data wyneb yn wyneb. Rydym yn ddiolchgar i gydweithwyr o'r Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a gefnogodd ddatblygiad yr astudiaeth a chynhyrchu'r adroddiad. Yn olaf, hoffem hefyd ddiolch i Dr Benjamin Gray a Dr Charlotte Grey am ymgymryd ag adolygiad cymheiriaid a darparu sylwadau gwerthfawr ar fersiwn gynharach o'r adroddiad.

Moeseg

Rhoddyd caniatâd ar gyfer yr arolwg hwn gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafwyd cymeradwyaeth foesebol ar gyfer y dadansoddiadau hyn gan Bwyllgor Moeseg Academaidd Gofal Iechyd a Gwyddorau Meddygol Prifysgol Bangor.

ISBN 978-1-78986-051-8

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor

Ariannwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru


Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad GIG sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus proffesiynol ac annibynnol i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru. Ariannwyd cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gweithiodd yr awduron a ariannwyd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, fodd bynnag, ni ddylid tybio bod y farn yn yr adroddiad hwn yr un fath â barn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Uwch Broffiliau Cadw'n Iach yng Nghymru

Pwy sy'n meddwl beth am iechyd y genedl

Trwy arolygon cartrefi ac ar-lein, cafodd barn 3,310 o unigolion yng Nghymru (16 oed ac hŷn) ar 19 datganiad iechyd cyhoeddus eu casglu. Cafodd wyth uwch broffil demograffig a phum uwch broffil ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd eu creu i archwilio'r gwahaniaethau mewn barn ar draws grwpiau poblogaeth.

Categoriâu uwch proffiliau



Dangosir y gyfran wedi'i addasu^a o fewn pob proffil a gytunodd^b gyda'r datganiad o fewn y segment lliw priodol.

Mae'r rhif canol yn dangos y gyfran y sampl genedlaethol gynrychioliadol sydd wedi cytuno gyda'r datganiad, efo'r gyfran sydd wedi anghytuno a dim barn o dan.

Mae'r bobl wnaeth sôn am yr ymddygiad sy'n niweidio iechyd yn dangos yn y saethau gyda lefelau is o gytundeb a'r datganiad.



Goryfed mewn pylliau



Ysmygu



Iechyd gwaelach




Diffyg ymarfer corff



Deiet gwaelach

Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal




*15% yn anghytuno; 32% dim barn



Llai o gytundeb

Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol




*26% yn anghytuno; 27% dim barn



Llai o gytundeb

Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant




*13% yn anghytuno; 16% dim barn



Llai o gytundeb

Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda




*23% yn anghytuno; 25% dim barn



Llai o gytundeb


^a Cyfran a addaswyd gan rhyw a dull arolwg ^b Naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ymatebion eraill oedd 'ddim yn anghytuno nac yn cytuno' wedi'i gategoreiddio fel dim barn, a 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf' wedi'i gategoreiddio fel anghytuno. ^cGweler yr adroddiad am ddiffiniadau'r ymddygiadau niweidio iechyd.

Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol




*71% yn anghytuno; 13% dim barn

Categoriâu uwch profiliau




Hoffwn weld mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach




*27% yn anghytuno; 26% dim barn

Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl




*18% yn anghytuno; 14% dim barn

Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny



*7% yn anghytuno; 17% dim barn

Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr



*8% yn anghytuno; 16% dim barn

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Methodoleg	2
Canfyddiadau	
Pobl 16-29 oed mewn gwaith	5
Pobl 16-29 oed ddi-waith	6
Myfyrwyr 16-29 oed	7
Pobl 30-49 oed mewn gwaith	8
Pobl 30-49 oed ddi-waith	9
Pobl 50+ oed mewn gwaith	10
Pobl 50+ oed ddi-waith	11
Pobl 50+ oed wedi ymddeol	12
Crynodeb o'r uwch broffiliau demograffig	13
Amllder goryfed mewn pyliau	14
Statws ysmegu	15
Lefelau gweithgarwch corfforol	16
Bwyta ffrwythau a llysiau	17
Iechyd cyffredinol hunangofnodedig	18
Crynodeb o'r uwch broffiliau ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd	19
Trafodaeth	20
Cyfeiriadau	21
Atodiad: Tablau data	22

Cyflwyniad

Mae cynnwys y cyhoedd wrth lunio polisi wedi dod yn gynyddol bwysig.¹ Yng Nghymru, gwnaeth *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*² gydnabod hyn a nodi'r cyhoedd fel rhanddeiliad allweddol wrth wneud penderfyniadau. Cafodd yr **arolwg Cadw'n Iach yng Nghymru**³ ei gynllunio i gasglu barn unigolion sy'n byw yng Nghymru ar amrywiaeth o faterion iechyd cyhoeddus er mwyn llywio datblygu strategaeth tymor hir i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r athrofa iechyd cyhoeddus i Gymru ac mae'n gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolwg Cadw'n Iach yng Nghymru ym mis Medi a Hydref 2017 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor. Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda sampl gynrychioliadol o gartrefi (n = 1,001) ynghyd ag arolwg ar-lein (n = 2,309) oedd yn agored i holl breswylwyr Cymru 16 oed a throsodd. Cyhoeddwyd canlyniadau o'r arolwg gynrychiadol o gartrefi ym mis Chwefror 2018.³ Cafodd y rhain fod y cyhoedd yng Nghymru yn gryf o blaid dulliau ataliol o wella iechyd y boblogaeth, er enghraifft,

- roedd 88% o bobl yn cytuno *dylai ysgolion addysgu mwy i blant am sut i fyw bywyd iachach*
- roedd 82% o bobl yn cytuno *y dylai bwydydd iach gostio ychydig yn llai a bwydydd nad ydynt yn iach ychydig yn fwy.*

Mae'r ail adroddiad hwn yn defnyddio data o'r arolygon cartrefi ac ar-lein i gyflwyno barn ar iechyd cyhoeddus ymhlith gwahanol **broffiliau'r** boblogaeth, *yn seiliedig ar gyflogaeth a statws oedran, ac ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd.*

Methodoleg

Ar gyfer yr arolwg cartrefi, 3,041 o gartrefi a ddewiswyd ar hap am yr astudiaeth drwy lythyr; gwnaeth 182 (6%) ddewis peidio â chymryd rhan ar y cam hwn. Cytunodd tri chwarter (76%) o'r cartrefi cymwys yr ymwelodd cyfweilwyr â hwy i gymryd rhan. Llenwyd yr holiadur gan sampl derfynol o 1,001 o unigolion. Roedd yr holiadur wedi'i addasu o arolygon barn cyhoeddus a weinyddwyd mewn gwledydd eraill.⁴⁻⁶ Cynhaliodd cwmni marchnata proffesiynol yr arolwg wyneb yn wyneb a chafodd pob cyfweiliad ei gynnal yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS). Roedd y dull arolwg hwn yn darparu data oedd yn rhyngwladol gynrychiadol o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.

Ar gyfer yr arolwg ar-lein, crëwyd gwefan i gynnal yr arolwg, a rannwyd yn eang drwy randdeiliaid, staff, sianelau newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer unrhyw un oedd â diddordeb mewn cymryd rhan. Roedd yr arolwg ar-lein ar agor am bedair wythnos. Cyflwynodd cyfanswm o unigolion 2,309 o holiaduron wedi'u llenwi gyda'r holl wybodaeth ddemograffig ofynnol (h.y. statws oedran, rhyw a chyflogaeth). Roedd y dull arolygu hwn yn galluogi cynifer o unigolion yng Nghymru ag y dymunant i ddweud eu dweud.

Mae'r **sampl gyfunol derfynol** yn cynnwys ymatebion gan 3,310 o unigolion (gweler yr Atodiad Tabl A-1). Casglodd yr arolwg farn y cyhoedd ar: yr hyn a ystyriant sy'n cyfrannu fwyaf at iechyd a llesiant gwael (amcan 1); pa faterion iechyd cyhoeddus y credant y mae angen mwy o weithredu yn eu cylch gan wasanaethau cyhoeddus (amcan 2); lle y maent yn cael eu gwybodaeth am sut i gadw'n iach (amcan 3); a'u safbwyntiau ar amrywiaeth o ddatganiadau iechyd cyhoeddus (amcan 4). Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau demograffig a rhai am ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd hefyd.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn archwilio barn ar 19 o ddatganiadau iechyd cyhoeddus (amcan 4) ar draws wyth uwch broffil demograffig a phump o ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae uwch broffiliau yn seiliedig ar safbwyntiau cyfunol grwpiau a ddiffiniwyd yn ddemograffig (nid yn ddaearyddol). Roedd y 19 o ddatganiadau yn canolbwyntio ar bedair thema gyffredinol (gweler Blwch 1). Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint yr oeddent yn cytuno â phob datganiad yn defnyddio graddfa Likert 5 pwynt (opsiynau ymateb: *anghytuno'n gryf, anghytuno, ddim yn anghytuno nac yn cytuno, cytuno, cytuno'n gryf*).

Blwch 1. Pedair thema gyffredinol y 19 o ddatganiadau iechyd cyhoeddus y ceiswyd barn y cyhoedd arnynt:






- **Polisiau** iechyd cyhoeddus
- **Strwythurau cymorth** iechyd cyhoeddus
- **Gofal iechyd** ac iechyd cyhoeddus
- **Llesiant.**

Yr wyth uwch broffil demograffig a gyflwynir yw: pobl 16-29 oed mewn gwaith, pobl 16-29 oed ddi-waith, myfyrwyr 16-29 oed, pobl 30-49 oed mewn gwaith, pobl 30-49 oed ddi-waith, pobl 50+ oed mewn gwaith, pobl 50+ oed ddi-waith a phobl 50+ wedi ymddeol. Cafodd ymatebwyr eu categorio yn rhai *mewn gwaith* os oeddent yn dweud eu bod yn gweithio yn amser llawn, yn rhan-amser neu eu bod yn hunangyflogedig; a chawsant eu categorio yn rhai *di-waith* os oeddent yn dweud eu bod yn ddi-waith, yn ofalwr, ar salwch hirdymor neu'n anabl. Mae'r canfyddiadau ar gyfer pob uwch broffil demograffig yn cael eu cymharu â rhai o'r sampl cartrefi cynrychioliadol cenedlaethol a gasglwyd drwy'r cyfweiliad wyneb yn wyneb^{a,3} Mae gwybodaeth am yr ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofnodwyd gan bob uwch broffil demograffig hefyd wedi'i darparu at ddibenion cyd-destun^b.

Y pum uwch broffil ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gyflwynir yw: amllder goryfed mewn pyliau, statws ysmegu, lefelau gweithgarwch corfforol, bwyta ffrwythau a llysiau a iechyd cyffredinol hunangofnodedig. Gofynnwyd un cwestiwn ar gyfer pob ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd, gyda'r ymatebion yn cael eu categorio yn dri grŵp i'w dadansoddi (gweler Blwch 2).

Cyflwynir disgrifiad o'r broses a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data ym Mluch 3.

Blwch 2. Cwestiynau unigol a ofynnwyd er mwyn cael gwybodaeth am ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd

Canlyniad	Symbol	Cwestiwn	Categoriâu (Ymatebion)
Amllder goryfed mewn pyliau*		Yn y flwyddyn ddiwethaf pa mor aml ydych chi wedi cael 6 neu fwy o ddiodydd alcoholig yn ystod un achlysur yfed?	Yn rheolaidd (<i>dyddiol; wythnosol</i>) Yn achlysurol (<i>misol; llai na misol</i>) Byth (<i>byth; dydw i ddim yn yfed o gwbl</i>)
Statws ysmegu		O ran ysmegu tybaco, pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?	Cyfredol (<i>rwyn ysmegu bob dydd; rwyn ysmegu yn achlysurol ond nid bob dydd</i>) Cyn-ysmygwr (<i>Roeddwn yn arfer ysmegu ond nid wyf yn ysmegu o gwbl nawr</i>) Byth (<i>Dydw i ddim erioed wedi ysmegu</i>)
Lefelau gweithgarwch corfforol		Ar faint o ddiwrnodau bob wythnos yr ydych yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am o leiaf 30 munud (digon i wneud i chi goll'i'ch anadl a chwysu)?	0-1 diwrnod (<i>byth; 1 diwrnod neu lai</i>) 2-4 diwrnod (<i>2-4 diwrnod</i>) 5 + diwrnod (<i>5 diwrnod neu fwy</i>)
Bwyta ffrwythau a llysiau		Ar ddiwrnod arferol, sawl dogn o ffrwythau a llysiau (heblaw tatws) y byddech fel arfer yn eu bwyta (un dogn yw tua un llond llaw)?	0-2 dogn (<i>0; 1; 2</i>) 3-4 dogn (<i>3; 4</i>) 5+ dogn (<i>5 neu fwy</i>)
Iechyd cyffredinol hunangofnodedig†		Os mai 100 yw'r cyflwr iechyd gorau y gallech ei ddychmygu a 0 yw'r cyflwr iechyd gwaethaf y gallech ei ddychmygu, pa mor dda neu ddrwg yn eich iechyd eich hun yn gyffredinol?	Isel (<i>0-65; ≤ 25^{ain} canradd</i>) Cyfartalog (<i>66-87; ≥ 25^{ain} - < 75^{ain} canradd</i>) Uchel (<i>88-100; ≥ 75^{ain} canradd</i>) (<i>ymateb yn deillio o raddfa analog weledol 0-100</i>)

*Cwestiwn o'r offeryn AUDIT C⁷

†Cwestiwn wedi'i addasu o EQ-5D-Q⁸

a Oherwydd gwahaniaethau bach mewn pwysau a phrosesau mathemategol eraill, gall y canrannau cenedlaethol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fod yn wahanol o hyd at 1% o'r rhai a gyflwynwyd yn yr adroddiad gyntaf Cadw'n Iach yng Nghymru

b Darperir data ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer cyfranogwyr yr arolwg ym mhob uwch broffil demograffig ar gyfer cyd-destun yn unig. Ni ddylid dehongli'r data ymddygiad fel pe byddai'n genedlaethol gynrychiadol.

Blwch 3. Dadansoddi data

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r data yn defnyddio IBM SPSS v24. Crëwyd uwch broffiliau demograffig yn seiliedig ar statws oedran a chyflogaeth. Darparwyd data cod post annigonol gan ymatebwyr i alluogi defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I archwilio'r gwahaniaethau o ran barn ar y datganiadau iechyd cyhoeddus rhwng uwch broffiliau demograffig, cyfrifwyd cymedrau a addaswyd (cymedrau ymylol amcangyfrifedig) drwy fodelu llinol cyffredinol (gan reoli ar gyfer rhyw a dull yr arolwg). I gywiro ar gyfer rhagfarn yn y sampl ar-lein, cafodd cymedrau ymylol amcangyfrifedig (a chyfyngau hyder 95%) eu haddasu ymhellach ar gyfer pob cwestiwn i gyfrif am y gwahaniaeth mewn ymatebion cymedrig rhwng y sampl cyfunol a hynny'r sampl genedlaethol gynrychioliadol (gweler Atodiad Tabl A-2 ar gyfer cyfyngau hyder 95% sampl gynrychioliadol).

Mae canfyddiadau ar gyfer pob uwch broffil demograffig yn cael eu cymharu â'r rhai o'r sampl genedlaethol gynrychioliadol, wedi'u pwysoli i adlewyrchu poblogaeth genedlaethol Cymru (16 oed a throsodd)^c. Pennwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng yr uwch broffiliau demograffig a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol gan ddim gorgyffwrdd rhwng cyfyngau hyder 95%; mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Atodiad (Tabl A-3). Yn ogystal, mae gwahaniaethau o 10% rhwng yr uwch broffiliau demograffig a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol hefyd wedi'u nodi.

Cyfrifwyd cymedrau wedi'u haddasu i nodi unrhyw wahaniaethau mewn barn yn seiliedig ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd (drwy reoli modelu llinellol cyffredinol gan reoli ar gyfer oed a statws cyflogaeth; rhyw; a dull arolwg; nodwyd cyfyngau hyder 95% yn yr Atodiad Tablau A-4 i A-8). Gwnaed cymariaethau mewn paru i nodi gwahaniaethau arwyddocaol rhwng categorïau o fewn pob grŵp ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd (gyda chywiriad Gwahaniaeth Lleiaf arwyddocaol (LSD).






Pobl 16-29 oed mewn gwaith

Roedd pobl 16-29 oed mewn gwaith yn cyfrif am 9% o gyfanswm y sampl. Mae Tabl 1 yn dangos y gyfran oedd yn cytuno â phob datganiad iechyd cyhoeddus ac mae'n cymharu canfyddiadau â'r rheini ar gyfer y sampl genedlaethol gynrychioliadol (gweler yr Atodiad Tabl A-3 ar gyfer cyfyngau hyder 95%). Roedd barn yr uwch broffil hwn yn wahanol iawn i rai'r sampl genedlaethol gynrychioliadol ar gyfer pump o'r datganiadau. Roedd pobl 16-29 oed mewn gwaith yn dangos mwy o gefnogaeth ar gyfer *rhoi cyngor proffesiynol i rieni ar fagu eu plant yn dda*, am gyflogwyr yn gwneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr, ac roeddent yn fwy ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu eu hanghenion gofal iechyd pe byddent yn sâl. Fodd bynnag, roeddent yn llai cefnogol o derfynau cyflymder 20 mya lle y byddent yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd ac y dylid gwahardd hysbysebion bwyd nad yw'r iach i blant i leihau gordewdra mewn plant; er bod dwy ran o dair yn dal i gytuno gyda'r datganiadau hyn. Ar gyfer dau o'r datganiadau (cyngor i rieni, terfynau cyflymder 20 mya), roedd cyfrannau yn wahanol i'r sampl genedlaethol gynrychioliadol gan 10% neu fwy.

Mae Blwch 4 yn dangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd y bobl 16-29 mewn gwaith a lenwodd yr arolwg. Roedd dwy ran o dair erioed wedi ysmegu, ac roedd y rhan fwyaf wedi'u categorio fel rhai ag iechyd cyfartalog neu dda. Fodd bynnag, dim ond 20-22% oedd yn bodloni'r canllawiau ar gyfer lefelau gweithgarwch corfforol a bwyta ffrwythau a llysiau.



Blwch 4. Ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl 16-29 oed mewn gwaith a lenwodd yr arolwg (n = 306)^d

	10% Yn rheolaidd	62% Yn achlysurol	28% Byth
	16% Cyfredol	16% Cyn-ysmygwr	67% Byth
	32% 0-1 diwrnod	49% 2-4 diwrnod	20% 5+ diwrnod
	35% 0-2 dogn	42% 3-4 dogn	22% 5+ dogn
	21% Isel	49% Cyfartalog	30% Uchel

Tabl 1. Cyfran a addaswyd y bobl 16-29 oed mewn gwaith yn cytuno* â phob datganiad iechyd cyhoeddus, o gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol

Datganiadau Iechyd Cyhoeddus		Pobl 16-29 oed mewn gwaith	Sampl genedlaethol gynrychioliadol
Polisiau	Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal	54%	53%
	Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol.	42%	47%
	Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant	65%	71% *
	Dylai bwyd iach gostio ychydig yn llai a bwyd nad yw'n iach ychydig yn fwy	85%	83%
	Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd	73%	67%
	Rwy'n cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd	66%	76% *🏠
Strwythurau cymorth	Hoffwn weld mwy o ymgirchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach	53%	47%
	Dylai ysgolion addysgu rhagor am fyw bywyd iach i blant	90%	88%
	Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda	63%	52% *🏠
	Mae plentyndod diogel a llawn cariad yn hanfodol ar gyfer tyfu i fod yn oedolyn iach	85%	87%
	Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr	85%	76% *
Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny	72%	77%	
Gofal iechyd	Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl	79%	69% *
	Rwy'n pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallwn gael haint	30%	35%
	Pan fyddaf yn mynd at fy meddyg teulu, mae fel arfer yn siarad â mi am sut i fyw bywyd iachach	30%	34%
	Pan fyddaf yn siarad â phobl broffesiynol ym maes iechyd, megis nyrsys a fferyllwyr, maen nhw'n rhoi cyngor ar fyw bywyd iachach i mi	36%	36%
Llesiant	Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol	11%	16%
	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned leol	87%	85%
	Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n obeithiol am fywyd	91%	85%
‡Naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf	* Gwahaniaeth arwyddocaol (p < .05) rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol 🏠 ≥10% o wahaniaeth rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol		

^d Cyfeiriwch at ffynonellau cenedlaethol gynrychioliadol mwy o faint (e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru) am wybodaeth genedlaethol gynrychiadol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ôl demograffeg yng Nghymru.






Pobl 16-29 oed ddi-waith

Roedd pobl 16-29 oed ddi-waith yn cyfrif am 1% yn unig o'r sampl, gan olygu y dylai'r canfyddiadau ar gyfer yr uwch broffil hwn gael eu dehongli'n ofalus. Mae Tabl 2 yn dangos y gyfran oedd yn cytuno â phob datganiad iechyd cyhoeddus (gweler yr Atodiad Tabl A-3). Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o'r sampl genedlaethol gynrychioliadol, o bosibl oherwydd y sampl fach. Fodd bynnag, ar gyfer wyth datganiad, roedd 10% neu fwy o wahaniaeth o'r sampl genedlaethol gynrychioliadol. O gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol, roedd pobl 16-29 oed ddi-waith yn fwy cefnogol y dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol. Roeddent yn llai cefnogol y dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd, y dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda, a'u bod yn ffyddiog pan fyddant yn sâl y byddai'r GIG yn diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Roeddent hefyd yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol a theimlo'n obeithiol am fywyd, ac yn fwy tebygol o deimlo ar wahân yn eu cymuned leol.










Mae Blwch 5 yn dangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl 16-29 oed ddi-waith a lenwodd yr arolwg. Roedd y grŵp hwn i raddau helaeth yn ymgysylltu â ffordd o fyw nad yw'n iach. Roedd bron hanner ohonynt yn ysmygwyr cyfredol, yn sôn am ychydig neu ddim gweithgarwch corfforol, ac yn sôn am iechyd cyffredinol gwael. Roedd dros 60% yn bwyta ychydig neu ddim ffrwythau a llysiau.



Blwch 5. Ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl 16-29 oed ddi-waith a lenwodd yr arolwg (n = 36)^d

	11% Yn rheolaidd	50% Yn achlysurol	39% Byth
	47% Cyfredol	17% Cyn-ysmygwr	36% Byth
	42% 0-1 diwrnod	28% 2-4 diwrnod	30% 5+ diwrnod
	61% 0-2 dogn	25% 3-4 dogn	14% 5+ dogn
	44% Isel	44% Cyfartalog	11% Uchel

Tabl 2. Cyfran a addaswyd y bobl 16-29 oed ddi-waith yn cytuno^a â phob datganiad iechyd cyhoeddus, o gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol

Datganiadau Iechyd Cyhoeddus		Pobl 16-29 oed ddi-waith	Sampl genedlaethol gynrychioliadol
Polisiau	Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal	52%	53%
	Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol.	59%	47% 
	Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant	62%	71%
	Dylai bwyd iach gostio ychydig yn llai a bwyd nad yw'n iach ychydig yn fwy	79%	83%
	Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd	54%	67% 
	Rwy'n cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd	68%	76%
Strwythurau cymorth	Hoffwn weld mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach	51%	47%
	Dylai ysgolion addysgu rhagor am fyw bywyd iach i blant	85%	88%
	Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda	33%	52% 
	Mae plentyndod diogel a llawn cariad yn hanfodol ar gyfer tyfu i fod yn oedolyn iach	91%	87%
	Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr	71%	76%
Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny	74%	77%	
Gofal iechyd	Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl	59%	69% 
	Rwy'n pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallwn gael haint	39%	35%
	Pan fyddaf yn mynd at fy meddyg teulu, mae fel arfer yn siarad â mi am sut i fyw bywyd iachach	44%	34% 
	Pan fyddaf yn siarad â phobl broffesiynol ym maes iechyd, megis nyrsys a fferyllwyr, maen nhw'n rhoi cyngor ar fyw bywyd iachach i mi	32%	36%
Llesiant	Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol	32%	16% 
	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned leol	66%	85% 
	Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n obeithiol am fywyd	72%	85% 
†Naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf	* Gwahaniaeth arwyddocaol (p < .05) rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol  ≥10% o wahaniaeth rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol		

Myfyrwyr 16-29 oed






Roedd tri y cant o'r sampl yn fyfyrwyr 16-29 oed, felly dylai'r canfyddiadau ar gyfer yr uwch broffil hwn gael eu dehongli'n ofalus. Mae Tabl 3 yn dangos y gyfran oedd yn cytuno â phob datganiad iechyd cyhoeddus (gweler yr Atodiad Tabl A-3). Roedd ymatebion i ddau ddatganiad yn wahanol iawn i rai'r sampl genedlaethol gynrychioliadol. Roedd myfyrwyr 16-29 oed yn llawer llai cefnogol y *dylai pobl gadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny a'u bod yn pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallent gael haint*.

Ar gyfer y dau datganiad uchod, roedd ymatebion yn wahanol i'r sampl genedlaethol gynrychioliadol gan 10% neu fwy. Felly, roedd myfyrwyr 16-29 oed hefyd (ond nid yn arwyddocaol felly) yn llai cefnogol y *dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol*, eu bod yn *teimlo yn ddiogel yn eu cymuned leol a'u bod yn teimlo'n obeithiol am fywyd*.







Mae Blwch 6 yn dangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd y myfyrwyr 16-29 oed a lenwodd yr arolwg. Adroddodd y grŵp hwn yn bennaf iechyd cyfartalog i uchel ac roedd 72% erioed wedi ysmegu, fodd bynnag, roedd 66% yn rhai oedd yn goryfed mewn pyliau yn rheolaidd neu'n achlysurol.



Blwch 6. Ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd myfyrwyr 16-29 oed a lenwodd yr arolwg (n = 108)^d

	7% Yn rheolaidd	59% Yn achlysurol	33% Byth
	20% Cyfredol	8% Cyn-ysmygwr	72% Byth
	32% 0-1 diwrnod	55% 2-4 diwrnod	13% 5+ diwrnod
	39% 0-2 dogn	44% 3-4 dogn	17% 5+ dogn
	27% Isel	5% Cyfartalog	30% Uchel

Tabl 3. Cyfran a addaswyd y myfyrwyr 16-29 oed yn cytuno* â phob datganiad iechyd cyhoeddus, o gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol

Datganiadau Iechyd Cyhoeddus		Myfyrwyr 16-29 oed	Sampl genedlaethol gynrychioliadol
Polisiâu	Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal	60%	53%
	Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol.	35%	47% 
	Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant	63%	71%
	Dylai bwyd iach gostio ychydig yn llai a bwyd nad yw'n iach ychydig yn fwy	85%	83%
	Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd	61%	67%
	Rwy'n cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd	71%	76%
Strwythurau cymorth	Hoffwn weld mwy o ymgirchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach	46%	47%
	Dylai ysgolion addysgu rhagor am fyw bywyd iach i blant	93%	88%
	Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda	57%	52%
	Mae plentyndod diogel a llawn cariad yn hanfodol ar gyfer tyfu i fod yn oedolyn iach	82%	87%
	Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr	77%	76%
	Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny	63%	77% * 
Gofal iechyd	Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl	73%	69%
	Rwy'n pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallwn gael haint	15%	35% * 
	Pan fyddaf yn mynd at fy meddyg teulu, mae fel arfer yn siarad â mi am sut i fyw bywyd iachach	33%	34%
	Pan fyddaf yn siarad â phobl broffesiynol ym maes iechyd, megis niysys a fferyllwyr, maen nhw'n rhoi cyngor ar fyw bywyd iachach i mi	37%	36%
Llesiant	Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol	14%	16%
	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned leol	75%	85% 
	Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n obeithiol am fywyd	74%	85% 
†Naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf	* Gwahaniaeth arwyddocaol (p < .05) rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol  ≥10% o wahaniaeth rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol		

^d Cyfeiriwch at ffynonellau cenedlaethol gynrychioliadol mwy o faint (e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru) am wybodaeth genedlaethol gynrychiadol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ôl demograffeg yng Nghymru.

Pobl 30-49 oed mewn gwaith

Ar draws yr holl gyfranogwyr roedd 39% yn bobl 30-49 oed mewn gwaith. Mae Tabl 4 yn dangos y gyfran oedd yn cytuno â phob datganiad iechyd cyhoeddus (gweler yr Atodiad Tabl A-3). O'i gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol, nodwyd saith gwahaniaeth arwyddocaol. Roedd pobl 30-49 oedd mewn gwaith yn fwy cefnogol y dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd; eu bod yn cefnogi terfynau cyflymder o 20 mya lle bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd; ac y dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda. Roeddent hefyd yn fwy ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu eu hanghenion iechyd pe byddent yn sâl.

Roeddent hefyd yn llai tebygol o gytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol ac yn teimlo'n obeithiol am fywyd, ac yn llai tebygol o gytuno eu bod yn teimlo ar wahân yn eu cymuned leol. Roedd y gwahaniaeth rhwng yr uwch broffil hwn a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol ar gyfer y ddau ddatganiad olaf yn fwy na 10%.

Mae Blwch 7 yn dangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd y bobl 30-49 oed mewn gwaith a lenwodd yr arolwg. Adroddodd y mwyafrif iechyd cyfartalog i uchel (81%) ac roedd y rhan fwyaf yn bwyta 3+ dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd (76%). Adroddodd dros draean lefelau isel o weithgarwch corfforol.



Blwch 7. Ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd y bobl 30-49 oed mewn gwaith a lenwodd yr arolwg (n = 1,289)^d

	12% Yn rheolaidd	56% Yn achlysurol	32% Byth
	13% Cyfredol	26% Cyn-ysmygwr	62% Byth
	35% 0-1 diwrnod	48% 2-4 diwrnod	17% 5+ diwrnod
	24% 0-2 dogn	48% 3-4 dogn	29% 5+ dogn
	19% Isel	54% Cyfartalog	27% Uchel

Tabl 4. Cyfran a addaswyd y bobl 30-49 oed mewn gwaith yn cytuno* â phob datganiad iechyd cyhoeddus, o gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol

Datganiadau Iechyd Cyhoeddus		Pobl 30-49 oed mewn gwaith	Sampl genedlaethol gynrychioliadol
Polisiau	Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal	59%	53%
	Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol.	41%	47%
	Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant	73%	71%
	Dylai bwyd iach gostio ychydig yn llai a bwyd nad yw'n iach ychydig yn fwy	85%	83%
	Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd	75%	67% *
	Rwy'n cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd	82%	76% *
Strwythurau cymorth	Hoffwn weld mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach	46%	47%
	Dylai ysgolion addysgu rhagor am fyw bywyd iach i blant	88%	88%
	Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda	59%	52% *
	Mae plentyndod diogel a llawn cariad yn hanfodol ar gyfer tyfu i fod yn oedolyn iach	89%	87%
	Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr	80%	76%
Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny	81%	77%	
Gofal iechyd	Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl	75%	69% *
	Rwy'n pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallwn gael haint	34%	35%
	Pan fyddaf yn mynd at fy meddyg teulu, mae fel arfer yn siarad â mi am sut i fyw bywyd iachach	31%	34%
	Pan fyddaf yn siarad â phobl broffesiynol ym maes iechyd, megis nyrsys a fferyllwyr, maen nhw'n rhoi cyngor ar fyw bywyd iachach i mi	36%	36%
Llesiant	Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol	6%	16% *🏠
	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned leol	93%	85% *
	Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n obeithiol am fywyd	96%	85% *🏠
‡Naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf	* Gwahaniaeth arwyddocaol (p < .05) rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol 🏠 ≥10% o wahaniaeth rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol		

Pobl 30-49 oed ddi-waith

Roedd pobl 30-49 oed ddi-waith yn cyfrif am 3% yn unig o'r sampl, gan olygu y dylai'r canfyddiadau ar gyfer yr uwch broffil hwn gael eu dehongli'n ofalus. Mae Tabl 5 yn dangos y gyfran oedd yn cytuno â phob datganiad iechyd cyhoeddus (gweler yr Atodiad Tabl A-3). Cafwyd gwahaniaethau arwyddocaol o'r sampl genedlaethol gynrychioliadol ar gyfer tri datganiad. O'i gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol, roedd pobl 30-49 oed ddi-waith yn teimlo'n fwy ar wahân yn eu cymuned leol, ond yn llai cefnogol y dylai'r y GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal a'u bod yn teimlo'n gobeithiol am fywyd.

Er nad yn arwyddocaol wahanol, roedd pobl 30-49 oed ddi-waith yn arwyddocaol llai tebygol o gytuno y dylai rieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda (gwahaniaeth o fwy na 10%).

Mae Blwch 8 yn dangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl 30-49 oed ddi-waith a lenwodd yr arolwg. Roedd dros ddwy ran o dair yn adrodd am iechyd isel cyffredinol, roedd 42% yn goryfed mewn pyliau yn rheolaidd neu yn achlysurol, ac roedd 35% yn ysmygwyr cyffredol.



Blwch 8. Ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl 30-49 oed ddi-waith a lenwodd yr arolwg (n = 106)^d

	10% Yn rheolaidd	32% Yn achlysurol	58% Byth
	35% Cyffredol	29% Cyn-ysmygwr	36% Byth
	51% 0-1 diwrnod	26% 2-4 diwrnod	23% 5+ diwrnod
	42% 0-2 dogn	41% 3-4 dogn	18% 5+ dogn
	69% Isel	22% Cyfartalog	9% Uchel

Tabl 5. Cyfran a addaswyd y bobl 30-49 oed ddi-waith yn cytuno* â phob datganiad iechyd cyhoeddus, o gymharu â'r sampl genedlaethol gynrychioliadol.

Datganiadau Iechyd Cyhoeddus		Pobl 30-49 oed ddi-waith	Sampl genedlaethol gynrychioliadol	
Polisiau	Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal	39%	53%	* 🏠
	Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol.	47%	47%	
	Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant	63%	71%	
	Dylai bwyd iach gostio ychydig yn llai a bwyd nad yw'n iach ychydig yn fwy	83%	83%	
	Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd	75%	67%	
	Rwy'n cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd	85%	76%	
Strwythurau cymorth	Hoffwn weld mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach	42%	47%	
	Dylai ysgolion addysgu rhagor am fyw bywyd iach i blant	84%	88%	
	Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda	41%	52%	🏠
	Mae plentyndod diogel a llawn cariad yn hanfodol ar gyfer tyfu i fod yn oedolyn iach	85%	87%	
	Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr	78%	76%	
Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny	74%	77%		
Gofal iechyd	Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl	63%	69%	
	Rwy'n pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallwn gael haint	44%	35%	
	Pan fyddaf yn mynd at fy meddyg teulu, mae fel arfer yn siarad â mi am sut i fyw bywyd iachach	34%	34%	
	Pan fyddaf yn siarad â phobl broffesiynol ym maes iechyd, megis nyrsys a fferyllwyr, maen nhw'n rhoi cyngor ar fyw bywyd iachach i mi	37%	36%	
Llesiant	Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol	30%	16%	* 🏠
	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned leol	77%	85%	
	Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n obeithiol am fywyd	68%	85%	* 🏠
‡Naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf	* Gwahaniaeth arwyddocaol (p < .05) rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol 🏠 ≥10% o wahaniaeth rhwng yr uwch broffil a'r sampl genedlaethol gynrychioliadol			

^d Cyfeiriwch at ffynonellau cenedlaethol gynrychioliadol mwy o faint (e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru) am wybodaeth genedlaethol gynrychiadol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ôl demograffeg yng Nghymru.

Pobl 50+ oed mewn gwaith






Roedd chwarter (25%) o'r sampl yn bobl 50+ oed mewn gwaith. Mae Tabl 6 yn dangos y gyfran oedd yn cytuno â phob datganiad iechyd cyhoeddus (gweler yr Atodiad Tabl A-3). Cafwyd gwahaniaethau arwyddocaol o'r sampl genedlaethol gynrychioliadol ar gyfer pedwar datganiad.

Roedd pobl 50+ oed mewn gwaith yn dangos mwy o gefnogaeth ar gyfer *rhoi cyngor proffesiynol i rieni ar fagu eu plant yn dda*. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn *teimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol* ac yn *teimlo'n obeithiol am fywyd*, ac yn llai tebygol o gytuno eu bod yn *aml yn teimlo ar wahân yn eu cymuned leol*. Cafwyd gwahaniaethau o 10% neu fwy ar gyfer dau o'r datganiadau llesiant.

Mae Blwch 9 yn dangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd y bobl 50+ oed mewn gwaith a lenwodd yr arolwg. Adroddodd y mwyafrif iechyd cyffredinol cyfartalog neu uchel (80%) a'u bod erioed wedi ysmegu nac yn gyn-ysmygwyr (90%), tra roedd dros hanner (56%), yn goryfed mewn pyliau yn rheolaidd neu yn achlysurol.



Blwch 9. Ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl 50+ oed mewn gwaith a lenwodd yr arolwg (n = 832)^d

	12% Yn rheolaidd	44% Yn achlysurol	44% Byth
	10% Cyfredol	30% Cyn-ysmygwr	60% Byth
	36% 0-1 diwrnod	41% 2-4 diwrnod	23% 5+ diwrnod
	19% 0-2 dogn	43% 3-4 dogn	38% 5+ dogn
	20% Isel	49% Cyfartalog	31% Uchel

